

## HOUSING PARTNERS LIMITED (HPL) A DIOGELU DATA

### ***Diogelu data***

Mae'n ofyniad cyfreithiol i HPL gydymffurfio â Deddfwriaeth Diogelu Data. Mae hefyd yn bolisi gan HPL i sicrhau bod pob gweithiwr yn cadw cyfrinachedd unrhyw ddata personol a gedwir gan HPL ar ba bynnag ffurf.

### ***Egwyddorion diogelu data***

Mae angen i HPL gadw gwybodaeth benodol am weithwyr, cleientiaid a chontractau i'n galluogi i gyflawni ein cyfrifoldebau cytundebol. I gydymffurfio â'r gyfraith, rhaid i wybodaeth:

- gael ei chasglu a'i defnyddio'n deg ac yn briodol, ei storio, ei throsglwyddo a'i thrin yn ddiogel, heb ei datgelu i unrhyw berson arall yn anghyfreithlon;
- ei phrosesu'n gyfreithlon, yn gywir, yn deg ac mewn modd tryloyw;
- fod yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol a'i chadw'n gyfredol;
- gael ei chadw ar ffurf sy'n caniatáu adnabod gwrthrychau'r data am ddim hirach nag sy'n angenrheidiol at ddibenion prosesu'r data personol;
- gael ei phrosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol y data personol, gan gynnwys diogelwch yn erbyn prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colled ddamweiniol, dinistr neu ddifrod.

Mae "Deddfwriaeth Diogelu Data" yn golygu'r holl ddeddfwriaeth a rheoliadau preifatrwydd a diogelu data perthnasol gan gynnwys Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwyddeb y CE) 2003 (OS 2426/2003) (PECR), y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), a phob cyfraith berthnasol a rheoliadau sy'n ymwneud â phrosesu data personol a phreifatrwydd cyfathrebiadau electronig i'r graddau y maent mewn grym o hyd, gan gynnwys lle bo'n berthnasol, y canllawiau a'r codau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae "GDPR" yn golygu Rheoliad (UE) 2016/679 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 27 Ebrill 2016 ar amddiffyn bodau dynol o ran prosesu data personol ac ar symud data o'r fath fel sy'n gymwys ar 25 Mai 2018.

Yng ngoleuni GDPR, rydym wedi cynnal adolygiad llawn o'n polisiau a'n gweithdrefnau diogelu data.

### **Rolau:**

- Rydym yn cadarnhau bod HPL yn gweithredu fel prosesydd data ar eich rhan.
- Gan mai chi yw'r rheolwr data, rydym yn gweithredu ar eich cyfarwyddiadau, ac fel y cytunwyd yn ein telerau ac amodau.

## Housing Partners Limited

### Ein manylion:

**Cyfeiriad Cofrestredig:** Teme House, Whittington Hall, Whittington Road, Caerwrangon, WR5 2RY  
Registered Address

**Rhif Cwmni Cofrestredig:** 04667857

**Rhif TAW:** 834858294

**Enwau Cyswllt:** Lesley Westwood, Pennaeth Cyllid

**E-bost cyswllt:** lesleywestwood@housingpartners.co.uk

**Yswiriant:** Rydym yn cadarnhau bod gennym Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr, Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ac Yswiriant Indemniad Proffesiynol. Byddwn yn cadarnhau lefel yr yswiriant ar gais.

### Gwasanaeth a Ddarperir:Gwasanaeth a Ddarperir:

Rhowch ddisgrifiad byr o'r gwasanaeth a ddarperir

Datrysiaid TG sy'n seiliedig ar gwmwl i helpu Awdurdodau Lleol i reoli achosion, olrhain ac adrodd ar ddigartrefedd.

### 1. Ein Swyddog Preifatrwydd Penodedig:

Jason Fudge, Rheolwr Cydymffurfiaeth  
E-bost at: [jasonfudge@housingpartners.co.uk](mailto:jasonfudge@housingpartners.co.uk)

Housing Partners,  
Teme House,  
Whittington Hall,  
Ffordd Wellington,  
Caerwrangon,  
WR5 2RY

### 2. Storio Data:

Cynhelir Jigsaw yn ddiogel ar Gwmwl Microsoft Azure.

Cwmwl Microsoft Azure yw ateb arweinydd y diwydiant ar gyfer saerniaeth sy'n seiliedig ar gwmwl, sy'n cynnig gwasanaethau gwydnwch ac argaeledd uchel rhagorol gyda galluedd diddiwedd. Mae Microsoft Azure yn bodloni cyfres eang o safonau cydymffurfio rhyngwladol a diwydiant-benodol, megis ISO 27001, HIPAA, FedRAMP, SOC 1 ac SOC 2, yn ogystal â safonau sy'n benodol i wlad, megis IRAP yn Awstralia, G-Cloud yn y DU a MTCS yn Singapore. Mae archwiliadau trydydd parti trylwyr, megis gan y Sefydliad Safonau Prydeinig, yn dilysu ymlyniad Microsoft Azure at y rheoliadau diogelwch caeth y mae'r safonau hyn yn eu gorchymyn. Mae ein seilwaith cwmwl yn defnyddio canolfannau data Microsoft wedi'u lleoli yn Nulyn, Iwerddon (Pennaf) ac Amsterdam, yr Iseldiroedd (Eilaid) at ddibenion wrth gefn

### 3. Cyflenwyr a Thrydydd Partïon:

Ein cyflenwyr yw: NPSS/NPSS Ltd sy'n darparu'r arbenigedd a'r cymorth cyfreithiol; Scanii sy'n darparu gwasanaeth gwirio am feirysau ar atodiadau sy'n cael eu llwytho i fyny i'r rhaglen; Salesforce sy'n darparu datrysiad desg gymorth / meddalwedd gwasanaeth cwsmeriaid; Mailchimp sy'n darparu datrysiad marchnata e-bost swmp; Solvovs sy'n darparu cefnogaeth farchnata i Bartneriaid Tai. Mae ein gwiriadau diogelwch 3ydd parti wedi nodi bod Mailchimp yn sefydliad yn yr UD

- MailChimp: Yn cymryd rhan yn yr UE-U.S ac wedi ardystio ei gydymffurfiaid. Fframwaith Tarian Preifatrwydd a'r Swistir-U.S. Fframwaith Tarian Preifatrwydd. Mae MailChimp yn cydymffurfio â'r Egwyddorion Tarian Preifatrwydd ar gyfer pob trosglwyddiad o Wybodaeth Personol o'r AEE, y Deyrnas Unedig a'r Swistir.

### 4. Data a Gedwir gan Housing Partners:

Er mwyn ymgymryd â'n rôl fel prosesydd data:

- Mae HPL yn prosesu'r Data Personol cyhyd â bod y Contract yn ei le gyda'r Cwsmer
- Cedwir data sy'n ymwneud ag ymgeiswyr/cwsmeriaid am 7 mlynedd ar ôl cau'r achos. Ar ôl y dyddiad hwn gall HPL ddileu'r data neu wneud y data yn ddiennw at ddibenion ystadegol.

### 5. Mynediad i Ddata:

Gydag unrhyw eithriadau a nodir yn Adran 3, mae mynediad i'ch data wedi'i gyfyngu i staff Housing Partners. Mae mynediad yn cael ei reoli gan ein tîm TG ac mae cyfrifon yn cael eu diogelu gan gyfrinair.

### 6. Hyfforddiant:

Mae holl staff Housing Partners wedi cael hyfforddiant ar GDPR yn 2018, ac maent i gyd wedi gwneud prawf i gadarnhau eu dealltwriaeth o GDPR.

Mae pob aelod o staff Housing Partners yn cael hyfforddiant diogelwch gwybodaeth fel rhan o'u cyfnod cynefino wrth ymuno â'r sefydliad ac mae'r holl staff yn cael hyfforddiant gloywi bob 12 mis.

### 7. Diogelwch Data:

Mae gan Housing Partners Ltd ardystiad ISO27001: 2013. Rhif y Dystysgrif: 561436

Mae Housing Partners hefyd yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn Profion Hacio (Penetration Testing) a gynhelir gan brofwyr hacio trydydd parti i ganfod datrysiadau ar gyfer gwendidau.

### 8. Gweithdrefnau ar gyfer delio ag mynediad diawdurdod at ddata:

Byddwn yn cysylltu â chi heb oedi diangen, os byddwn yn credu'n rhesymol y bu mynediad diawdurdod at eich data personol.